Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Finance and Compliance Committee held on 20 October 2025 at 6.30 pm Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

**Councillors Present:** Rob Marshall (Chair), Ian Scott, Pam Erasmus, Sara Keeton, Tim Zhou, Richard Jarvis and Phil Keeton

**Officers Present**: Paul Beynon – RFO and Ian Hughes - CSO

**FI2510-01** **Apologies:** Cllrs Martin O'Neill and Carrie Townsend Jones

**FI2510-02** **Declarations of Interest:** None

**FI2510-03** **Minutes of the Previous Meeting of the Committee**

To approve the minutes of the meeting held on 15th September 2025 as a true record.

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 15th September 2025 as a true recod.

**FI2510-04** **Outstanding Actions from Previous Meeting**

Outstanding actions outlined by the CSO.

**RESOLVED** outstanding actions updated, details to be recorded in 'outstanding action' report by CSO.

**FI2510-05** **Budget Monitoring Reports to 31/08/2025 - Paul Beynon, RFO**
**Reports attached.**

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon, who had previously circulated reports to councillors. No queries regarding these reports were raised prior to the meeting.

**RESOLVED** to approve the above reports

Mumbles Community Council

**FI2510-06** **Budget 2026/27**

The RFO stated that no budget proposal forms had been submitted to date, and a discussion took place on potential area for expenditure.
Requests in relation to benches to be submitted through Environmental Committee.

ACTION RFO to request bank statements from West Cross Youth Club in relation to the renewal of their three-year grant application.

**RESOLVED** Individual councillors/officers to submit budget proposal forms within the agreed timetable.
All budgeting requirements to be agreed at November Committee Meeting

**FI2510-07** **Internal Audit 2025/26 - Recommendations Tracker**

The RFO had distributed a detailed internal audit of recommendations made following a review. The RFO detailed that each recommendation had been colour coded with red indicating that the recommendation had yet to be initiated, amber indicating that the recommendation was in progress and green indicating that the recommendation had been completed.

The RFO went through each of the recommendations and invited the Committee to raise questions.
Where the RFO has disagreed with the authors' recommendations, this has been recorded in the minutes of the Full Council Meeting held on 14th October 2025.

In answer to how frequently the recommendations will be scrutinised, the RFO proposed that progress be reviewed every two months by committee.

**RESOLVED** That the progress of the recommendations be reviewed by committee every two months with the first review taking place in January 2026 to take into account the Christmas Holiday.

Mumbles Community Council

FI2510-08

**Mumbles Traders Grant Application**
Grant Application for £2,300 to contribute towards the Annual Mumbles Christmas Parade.

In answer to a query raised by The Chair, (Cllr Marshall), the RFO informed The Committee that MCC had still not received all the relevant information sought in relation to this and other grant applications. In particular details of expenditure and full bank statements. For example MCC would expect to receive expenditure showing that SCC had been paid for road closures for relevant events and that The RNLI had been paid for Christmas events.

The Committee was mindful that Christmas events are important for the community but needed to ensure that the correct procedures were followed and that MCC will not exposed to adverse criticism if independently scrutinised.

Whilst the grant applicant had suggested that MCC could pay for some services directly when contributing to events (e.g. paying SCC for road closures) this would not be possible due to MCC then having their name attributed to the event.

**RECOMMENDED** that a grant application for £2,300 be awarded to Mumbles Traders to contribute towards the Annual Mumbles Christmas Parade 2025 be approved subject to the RFO receiving full information as previously requested prior to November's Full Council Meeting.
Unless this information is received including itemised costs the grant will not be paid
**From Budget FC1 Small and Medium Grants.**

FI2510-09

**Mumbles Traders Grant Application**
Grant Application for £2,715 to contribute towards installation of 53 Christmas Trees & lights in Newton Road, Mumbles.

The issues connected to this application are similar to those detailed in the previous application **FI2510-08**. Again, whilst MCC are enthusiastic for the Christmas Trees and lights to be installed, this cannot be granted at the expense of compromising the regulations under which MCC provides grants.

Mumbles Community Council

**RECOMMENDED** that a grant application for £2,715 to contribute towards installation of 53 Christmas Trees & lights in Newton Road, Mumbles be approved subject to the RFO receiving full information as previously requested prior to November's Full Council Meeting. Unless this information is received including itemised costs the grant will not be paid.
**From Budget CTC4.**

**FI2510-10** **Mumbles Baptist Church Grant Application**

Grant Application for £500 to contribute towards providing a safe competitive Christian and non-Christian football team, giving them a purpose within the community.

The Committee were supportive of this application, key aspects of which were highlighted by The Chair, Cllr Marshall.

**RECOMMENDED** that a grant application for £500 be approved to contribute towards Mumbles Baptist Church providing a safe competitive Christian and non-Christian football team, giving them a purpose within the community.
**From Budget FC1 Small and Medium Grants.**

**Meeting Finished at 7.22pm**

**Next meeting: 17th November 2025**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2025 am 6.30pm
# Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Rob Marshall (Cadeirydd), Ian Scott, Pam Erasmus, Sara Keeton, Tim Zhou, Richard Jarvis a Phil Keeton

**Swyddogion yn bresennol**: Paul Beynon – Swyddog Ariannol Cyfrifol, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**FI2510-01** **Ymddiheuriadau:** Y cynghorwyr Martin O'Neill a Carrie Townsend Jones

**FI2510-02** **Datganiadau o fuddiant:** Dim

**FI2510-03** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2025 fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2025 fel cofnod cywir.

**FI2510-04** **Camau i'w cymryd o'r cyfarfod blaenorol**
Camau gweithredu heb eu cwblhau a amlinellwyd gan y swyddog cymorth pwyllgorau.

**PENDERFYNWYD** – camau gweithredu heb eu gweithredu i'w diweddaru, manylion i'w cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu heb eu gweithredu' gan y swyddog cymorth pwyllgorau.

**FI2510-05**

**Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 31 Awst 2025 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol**
**Adroddiadau wedi'u hatodi.**

Adroddiadau ariannol a baratowyd gan y swyddog ariannol cyfrifol, Paul Beynon, a oedd wedi dosbarthu adroddiadau i gynghorwyr yn flaenorol. Ni chodwyd unrhyw gwestiynau ynghylch yr adroddiadau hyn cyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiadau uchod

**FI2510-06**

**Cyllideb 2026-2027**
Dywedodd y swyddog ariannol cyfrifol nad oedd unrhyw ffurflenni cynnig cyllideb wedi'u cyflwyno hyd yn hyn, a chynhaliwyd trafodaeth ar y maes gwariant posibl. Ceisiadau mewn perthynas â meinciau i'w cyflwyno drwy Bwyllgor yr Amgylchedd.

GWEITHREDU Y swyddog ariannol cyfrifol i ofyn am ddatganiadau banc gan Glwb Ieuenctid West Cross mewn perthynas ag adnewyddu eu cais am grant tair blynedd.

**PENDERFYNWYD** Dylai cynghorwyr/swyddogion unigol gyflwyno ffurflenni cynnig cyllideb o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.
Rhaid cytuno ar bob gofyniad cyllidebu yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Tachwedd

**FI2510-07**

**Archwiliad Mewnol 2025-2026 - Traciwr Argymhellion**

Roedd y swyddog ariannol cyfrifol wedi dosbarthu archwiliad mewnol manwl o argymhellion a wnaed yn dilyn adolygiad. Dywedodd y swyddog ariannol cyfrifol fod pob argymhelliad wedi'i godio â lliw, gyda choch yn dangos nad oedd yr argymhelliad wedi'i gychwyn eto, melyn yn dangos bod yr argymhelliad ar y gweill a gwyrdd yn dangos bod yr argymhelliad wedi'i gwblhau.

Aeth y swyddog ariannol cyfrifol drwy bob un o'r argymhellion a gwahoddodd y pwyllgor i ofyn cwestiynau.
Lle mae'r swyddog ariannol cyfrifol wedi anghytuno ag argymhellion yr awduron, mae hyn wedi'i gofnodi yng nghofnodion cyfarfod y cyngor llawn a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2025.

Mewn ateb i ba mor aml y creffir ar yr argymhellion, cynigiodd y swyddog ariannol cyfrifol y dylai'r pwyllgor adolygu'r cynnydd bob dau fis.

**PENDERFYNWYD** Y dylai'r pwyllgor adolygu cynnydd yr argymhellion bob dau fis ac i'r adolygiad cyntaf ddigwydd ym mis Ionawr 2026 i ystyried gwyliau'r Nadolig.

**FI2510-08**

**Cais am grant masnachwyr y Mwmbwls**
Cais am grant o £2,300 i gyfrannu at orymdaith Nadolig flynyddol y Mwmbwls.

Mewn ateb i ymholiad a godwyd gan y cadeirydd, (y Cynghorydd Marshall), hysbysodd y swyddog ariannol cyfrifol y pwyllgor nad oedd Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi derbyn yr holl wybodaeth berthnasol a geisiwyd mewn perthynas â'r cais hwn a cheisiadau grant eraill. Yn benodol manylion gwariant a datganiadau banc llawn. Er enghraifft, byddai Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn disgwyl derbyn manylion gwariant yn dangos bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi cael ei dalu am gau ffyrdd ar gyfer digwyddiadau perthnasol a bod Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) wedi cael ei dalu am ddigwyddiadau'r Nadolig.

Roedd y pwyllgor yn ymwybodol bod digwyddiadau'r Nadolig yn bwysig i'r gymuned ond roedd angen sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn ac na fyddai Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn agored i feirniadaeth anffafriol os cânt eu craffu'n annibynnol.

Er bod yr ymgeisydd am grant wedi awgrymu y gallai Cyngor Cymuned y Mwmbwls dalu am rai gwasanaethau'n uniongyrchol wrth gyfrannu at ddigwyddiadau (e.e. talu Cyngor Dinas a Sir Abertawe am gau ffyrdd) ni fyddai hyn yn bosibl oherwydd y byddai enw Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn cael ei briodoli i'r digwyddiad wedyn.

**ARGYMHELLWYD** Cymeradwyo cais am grant o £2,300 i fasnachwyr y Mwmbwls i gyfrannu at orymdaith Nadolig flynyddol y Mwmbwls 2025 yn amodol ar i'r swyddog ariannol cyfrifol dderbyn gwybodaeth lawn fel y gofynnwyd yn flaenorol cyn cyfarfod llawn y cyngor ym mis Tachwedd.

Oni bai bod yr wybodaeth hon yn dod i law, gan gynnwys costau manylach, ni fydd y grant yn cael ei dalu.
**O gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd.**

**FI2510-09**

**Cais am grant masnachwyr y Mwmbwls**
Cais am grant o £2,715 i gyfrannu at osod 53 o goed Nadolig a goleuadau yn Heol Newton, y Mwmbwls.

Mae'r materion sy'n gysylltiedig â'r cais hwn yn debyg i'r rhai a nodwyd yn y cais blaenorol **FI2510-08** Unwaith eto, er bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn frwdfrydig dros osod y coed Nadolig a'r goleuadau, ni ellir caniatáu hyn ar draul peryglu'r rheoliadau y mae Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn darparu grantiau oddi tanynt.

**ARGYMHELLWYD** Cymeradwyo cais am grant o £2,715 i gyfrannu at osod 53 o goed Nadolig a goleuadau yn Heol Newton, y Mwmbwls, yn amodol ar i'r swyddog ariannol cyfrifol dderbyn gwybodaeth lawn fel y gofynnwyd yn flaenorol cyn cyfarfod llawn y cyngor ym mis Tachwedd. Oni bai bod yr wybodaeth hon yn cael ei dod i law, gan gynnwys costau manylach, ni fydd y grant yn cael ei dalu.
**O gyllideb CTC4 y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu.**

**FI2510-10**

**Cais am grant gan Eglwys y Bedyddwyr y Mwmbwls**
Cais am grant o £500 i gyfrannu at ddarparu tîm pêl-droed cystadleuol, diogel o bobl Gristnogol a phobl nad ydynt yn perthyn i'r ffydd Gristnogol, gan roi pwrpas iddynt o fewn y gymuned.

Roedd y pwyllgor yn gefnogol i'r cais hwn, ac amlygwyd agweddau allweddol ohono gan y cadeirydd, y Cynghorydd Marshall.

**ARGYMHELLWYD** cymeradwyo cais am grant o £500 i gyfrannu i Eglwys Bedyddwyr y Mwmbwls at ddarparu tîm pêl-droed cystadleuol, diogel o bobl Gristnogol a phobl nad ydynt yn perthyn i'r ffydd Gristnogol, gan roi pwrpas iddynt o fewn y gymuned.
**O gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd.**

Mumbles Community Council

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.22pm**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 17 Tachwedd 2025**